Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

## LLAU PEN – GWYBODAETH I RIENI

**Beth yw llau pen?**

Pryfed bach heb adenydd sy'n byw yng ngwallt pobl yw llau pen. Maent yn gyffredin, yn enwedig ymhlith plant. Lliw brown-llwyd yw llau pen. Pan fyddant yn deor byddant yn faint blaen pin ac yn faint hedyn sesame pan fyddant wedi tyfu'n llawn. Nid yw llau pen yn gallu hedfan, neidio na nofio. Cânt eu lledaenu drwy gyswllt pen-nau, gan ddringo o wallt rhywun sydd wedi'i heintio i wallt rhywun arall. Nid yw heigiadau o lau pen yn digwydd oherwydd gwallt budr neu ddiffyg hylendid. Gall llau pen effeithio ar bob math o wallt, dim ots pa mor hir ydyw na sut gyflwr sydd arno. Mae llau pen yn effeithio ar bobl yn unig ac ni ellir eu trosglwyddo i anifeiliaid na chael eu dal oddi wrthynt.

**Sut i adnabod llau pen**

Gan amlaf, cosi yw prif symptom llau pen. Nid yw'n cael ei achosi gan y llau yn cnoi croen y pen ond gan aler-gedd i'r llau. Fodd bynnag, nid yw pawb yn dioddef cosi. Nid yw'n hawdd gweld llau pen bob amser felly canfod drwy gribo yw'r ffordd orau o ddod o hyd i lau pen. Mae hyn yn cynnwys defnyddio crib fân arbennig ar gyfer llau pen (gyda gofod sy'n llai na 0.3 mm rhwng y dannedd i ddal y llau lleiaf) i gribo drwy'r gwallt. Mae'n gweith-io'n well ar wallt gwlyb ond gall gael ei defnyddio ar wallt sych.

Gallwch brynu'r cribau canfod hyn o fferyllfeydd.

**Trin llau pen**

Fel arfer, gellir trin llau pen yn effeithiol gan ddefnyddio trwythau meddyginiaethol neu drwy gribo gwlyb, gan ddefnyddio crib llau pen arbennig.  Gall cribo gwlyb gael ei ddefnyddio heb drwythau meddyginiaethol, ond mae angen ei wneud yn rheolaidd a gall gymryd amser hir i'w wneud yn drylwyr. Fel arall, gellir defnyddio trwyth neu chwistrell feddyginiaethol. Fodd bynnag, nid yw unrhyw driniaeth feddyginiaethol yn 100% effeithiol. Bydd eich fferyllydd yn gallu argymell trwyth neu chwistrelliad i'w phrynu dros y cownter.

**Atal llau pen**

Mae'n anodd atal heigiad o lau pen. Canfod drwy gribo yn rheolaidd - er enghraifft yn wythnosol - yw'r ffordd orau o ddod o hyd i lau pen newydd yn gyflym.Nid yw trwythau a chwistrellau meddyginiaethol yn atal heigiadau o lau pen ac ni ddylid eu defnyddio oni bai bod llau pen byw wedi'u darganfod ar eich pen chi neu eich plentyn.

**Llau pen ar blant yn y dosbarth (argymhellion Cyngor Sir Ddinbych)**Os canfyddir llau pen byw yng ngwallt disgybl, byddwn yn hysbysu rhiant y plentyn (mewn cyfrinachedd) fel y gallant drin yr heintiaid.  Ni fyddwn yn hysbysu'r holl rieni.

**Ni fyddwn yn gwahardd disgybl** â llau pennau o'r ysgol.  Yr unig eithriad i hyn yw pan fo llau pennau yn brob-lemau gyson.

**Am mwy o fanylion ewch i wefan NHS Direct neu gysylltu nyrs yr ysgol ar 03000 856802**

http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice/#Introduction

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

## HEAD LICE – INFORMATION TO PARENTS

### What are head lice?

Head lice are tiny wingless insects that live in human hair. They are common, particularly in children.

Head lice are grey-brown in colour, the size of a pinhead when hatched and of a sesame seed when fully grown.They cannot fly, jump or swim and are spread by head-to-head contact, climbing from the hair of an infected person to the hair of someone else.A head lice infestation is not the result of dirty hair or poor hygiene. Head lice can affect all types of hair irrespective of its condition and length.

Head lice only affect humans and cannot be passed on to animals or be caught from them.

### How to spot head lice

In most cases, itching is the main symptom of head lice. It is not caused by the lice biting the scalp but by an allergy to the lice. However, not everyone experiences itching.

It's not always easy to see head lice so detection combing is the best way of finding head lice. This involves using a special fine-toothed head lice comb (with tooth spacing of less than 0.3mm to trap the smallest lice) to comb through the hair. It works better on wet hair but can be used on dry hair.

Detection combs are available from pharmacies.

### Treating head lice

Head lice can usually be effectively treated using medicated lotions or by wet combing, using a specially designed head lice comb. Wet combing can be used without medicated lotions, but needs to be done regularly and thoroughly. Medicated lotion or spray can be used as an alternative. However, no medicated treatment is 100% effective. Your pharmacist will be able to recommend an over-the-counter lotion or spray.

### Preventing head lice

It's difficult to prevent a head lice infestation. Regular detection combing - for example, on a weekly basis, is the best way to find new lice quickly.

Medicated lotions and sprays do not prevent head lice infestations and should only be used if a live louse has been found on yours or your child's head.

### Children in school with head lice (Denbighshire County Council guidance)

Ysgol Pen Barras will take the following steps.

If a pupil in school is found to have a live moving louse, the infected child's parent will be informed (in confidence) so that they can treat the infection, there is no need for us to inform all parents.

A pupil with head lice **will not be excluded** from school, the only exception is when the carriage of head lice is a persistent problem.

**For further information visit the NHS Direct website or contact the school nurse on 03000 856802**

http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice/#Introduction